51. Coed Simdde Lwyd

Cwm Rheidol, Ceredigion

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 213 yr A.O. Aberystwyth a Chwm Rheidol. Prif fynedfa: SN712787, mynedfeydd eraill yn at SN716785 a SN718783; Canolfan y safle: SN717786
Statws	Mae'r safle'n rhan o SoDdGA a GNG ac, yn ei dro, yn rhan hefyd o safle Ewropeaidd Natura 2000, sef Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) Coed a Cheunentydd Rheidol.
Daliadaeth	Prynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 1980 gyda chyllid o Apêl Bywyd Gwyllt Dyfed a chymorth grant gan NCC a CFEN, gydag ychwanegiadau amrywiol yn ystod y blynyddoedd dilynol.
Maint	36.3 he (89.7 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Ceir gofod i un car wrth y brif giât, gerllaw Fferm Glynrheidol. Llwybrau troed, nifer ohonynt yn serth. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Dim.

Disgrifiad: Coetir o dderw hynafol yn yr ucheldir.
Mae'r warchodfa'n goedwig o Dderw Digoes ar lethr serth yn wynebu tua'r de. Canopi pur o Dderw Digoes a geir yma fwy neu lai, ond gyda Bedw Cyffredin a Bedw Arian i'w gweld yn amlwg mewn rhai ardaloedd. Mae nant, yn y pen dwyreiniol, yn llifo'n ddwfn i lawr i Afon Rheidol. Yn y fan yma, mae'r canopi'n fwy amrywiol, gyda rhywogaethau ychwanegol fel Gwerni, Ynn, Drain Duon (3-4), Pisgwydd Dail Bychain, Sycamorwydd, Ceirios Gwyllt (4-5) a Llwyfain Llydanddail. Mae nant yn llifo i lawr i'r afon o Raeadrau Rheidol hefyd, yn y pen gorllewinol.

Mae planhigion y ddaear yn nodweddiadol o goetir asidig yng nghanolbarth Cymru ac yn cynnwys Clychau'r Gog (4-6), Biwlith Melyn (6-8), y Fioled Gyffredin (4-6), Bysedd y Cŵn (7-8), Clafrllys y Mynydd (5-9), Eglyn Cyferbynddail (3-5), Briallu (2-5), Blodau'r Gwynt (3-5), Gwlydd Melyn Mair (5-9), Grug (8-10) a Llus (4-6).

Cofnodwyd naw rhywogaeth o redyn yma, yn cynnwys Rhedynach Wilson (6-7), sydd i'w weld yma ac acw ar y graig serth ym mhen de-orllewinol y nant, ynghyd â'r mwsogl calchgar, *Ctenidium molluscum* a'r llysiau afu deiliog amlwg, *Bazzania tribolata*.

Mae'r adar magu'n cynnwys y rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r math yma o goetir, fel y Gwybedog Brith, y Tingoch a Thelor y Coed. Gwelir y Bwncath, Jac-y-do, Sgrech y Coed, y Titw Cynffon Hir, y Gigfran a'r Robin Goch yma'n rheolaidd hefyd. Mae moch daear yn gwneud defnydd helaeth o'r warchodfa ac mae Ysgyfarnogod yn gwneud defnydd o gyrion y coed.

coed simdde lwyd2 1 10/7/06, 9:14 am



Nodau Rheoli: Rheolir y rhan fwyaf o'r coetir heb fawr ddim ymyrraeth. Mae rhannau bychain yn cael eu torri'n achlysurol i sicrhau mwy o amrywiaeth yn y strwythur oedran.

Amser da i ymweld	
Mawrth - Medi	Blodau'r coetir
Mai - Gorffennaf	Adar yn magu
Mehefin - Hydref	Rhedyn, Llus yn dod i'w ffrwythau
Medi - Tachwedd	Ffwng